cynnal

# GWEDDI AR GYFER Y PASG 2023

***Cysur Duw***

*“Yn nherfysg fy naearfyd – f’angor yw,*
*Fy nghraig ym môr bywyd;*
*Fy rhwyf ar gefnfor hefyd,*
*Ar fin glan, yr hafan glyd.”*

***Anhysbys***

Wyddom ni ddim pwy ysgrifennodd y geiriau uchod, na phryd na pham, nac yn lle – “o darddiad neu awduriaeth dienw” yw “anhysbys” yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru!

Ond fe allai cymal cyntaf y llinell agoriadol fod wedi ei hysgrifennu heddiw neu ddoe, neu’r wythnos diwethaf o ystyried maint y terfysg a’r difrod, y rhyfela a’r casineb, sydd yn brigo ym mhob cwr o’n byd ni.

Tybed mai’n difaterwch ni sydd i’w gyfrif am y fath stâd?

Cofier bod gwerthu arfau mileinig wedi eu cynhyrchu yn ein ffatrïoedd ni yn creu archollion a cholli gwaed i gyd-ddyn a chymdeithas;

Cofier bod ymdrechion gwledydd cyfagos i ennill goruchafiaeth dros eu cymdogion hefyd yn staen ar ein haelwydydd ni;

Cofier bod llwgrwobrwyo er budd etholiadol a llywodraethu yn gorseddu anonestrwydd ar draul gwirionedd, a ninnau mor ddiniwed ac mor barod i gael ein suo i’w dderbyn yn ddi-gwestiwn.

Deisyfwn nerth i greu byd gwâr, lle nad ydyw y barus na’r milain na’r cyfrwys yn dewis y cyfeiriad i’n tywys.

Gwyddom hefyd fod ein daear ni ar adegau yn gallu colli ei thymer yn go arw – gall greu tywydd anwadal, gall chwyrnu a rhuo a rhwygo, gan ddinistrio cartrefi a chymunedau.

Dyna pryd y gwelwn dosturi a chariad tuag at ein cyd-ddyn yn brigo ac yn blodeuo.

Bydded i’n gofal dros ffoaduriaid fod yn gynnes ac yn gymeradwy.

Bydded i’n cyfraniadau i’r elusennau rheini sy’n herio’r dinistr wyneb yn wyneb fod yn hael.

A bydded i’r brawdgarwch hwnnw sy’n amlygu ei hun mewn argyfwng fod yn amlwg hefyd yn ein hymwneud â’n gilydd pan fydd y llwch wedi setlo, a’r boblogaeth unwaith yn rhagor yn hercian o ofid i ofid wrth i’r byd droi ar ei echel fel erioed.

Ac wrth sylwi ar weddill yr englyn, unigolyn sy’n siarad, ac am a wyddom gallai yntau fod yn unigolyn bregus ei ffawd a’i fyd – ond mae’n siarad gydag argyhoeddiad am angor, am graig, am rwyf, ac am hafan glyd.

I bawb sy’n gaeth, i bawb sydd â dibyniaeth, i bob un sydd yn teimlo chwerwder mewn bywyd, i bob un sy’n ddigyfeiriad a diymadferth, bydded i “Gysur Duw” fod ar eu lleferydd.

A bydded i neges y Pasg eleni fod yn gyfle o’r newydd i gyfleu llawenydd a gobaith mewn byd o dywyllwch.

**AMEN**

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**
wynfordellisowen@adferiad.org
Rhif ffôn: 07796 464 045

**www.cynnal.wales**